

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2013

Amser y cyfarfod:
13:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Pleidleisiau a Thrafodion (169)v5

Teyrngedau i Nelson Mandela

Dechreuodd yr eitem am 13.30

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.48

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.34

3 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: PISA 2012

Dechreuodd yr eitem am 14.43

4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Ilifogydd diweddar yng ngogledd Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.18

5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dŵr

Dechreuodd yr eitem am 16.01

NDM5303 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno mai Senedd y DU ddylai ystyried darpariaethau'r Bil Dŵr fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Mehefin 2013, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Medi 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

6 Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014–15

Dechreuodd yr eitem am 16.08

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

NDM5382 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014–2015 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ar 3 Rhagfyr 2013.

Troednodyn:

Yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20.28, mae'r Gyllideb Flynyddol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

1. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;
2. yr adnoddau y cytunodd y Trysorlys arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru am y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;
3. cysoni rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau i'w hawdurdodi i'w defnyddio yn y cynnig;
4. cysoni rhwng yr amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o'r Gronfa yn y cynnig; a

5. cysoni rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	16	12	56

Derbyniwyd y cynnig.

7 Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy

Dechreuodd yr eitem am 16.56

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

NDM5381 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2012–13, fel y'i nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi gyda phryder y sylwadau a wnaed yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy, a bod "gwendidau systemig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy" o hyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Dileu “r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2012–13, fel y’i nodir yn”.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y rôl ganolog y mae addysg yn ei chwarae wrth ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru ac yn croesawu adolygiad thematig Estyn o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn gwella ei ffocws a chanfod gwelliannau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
55	0	0	55

Derbyniwyd gwelliant 3.

Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y gostyngiad yn lefelau caffael bwyd lleol y sector cyhoeddus, nad oedd y strategaeth ‘Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru’ bresennol yn addas i’r diben ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun labelu cynhwysfawr ar gyfer bwyd a diod o Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
17	11	28	56

Gwrthodwyd gwelliant 4.

Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i gasglu tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad ymarferol wrth ffurfio polisiâu datblygu cynaliadwy a'u cynnwys mewn partneriaethau cyflawni.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 5.

Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi adroddiad ar sut y mae polisiâu yn y Rhaglen Lywodraethu yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 6.

Gwelliant 7 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y cyfraniad a wnaed gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ei sylwadau ar yr adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 7.

Gwelliant 8 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pryderon parhaus y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch elfennau o strwythur a chynnwys yr adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
---------	--------	----------	----------

55	0	0	55
----	---	---	----

Derbyniwyd gwelliant 8.

Gwelliant 9. William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fil Cenedlaethau'r Dyfodol cadarn ac effeithiol i roi sylw priodol i'r pwyntiau a godwyd gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ac i'r Gweinidog ymgysylltu â phob plaid a'r gymdeithas ddinesig ehangach wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 9.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

NDM5381 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi gyda phryder y sylwadau a wnaed yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy, a bod "gwendidau systemig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy" o hyd.
2. Yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2012–13, fel y'i nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013.
3. Yn cydnabod y rôl ganolog y mae addysg yn ei chwarae wrth ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru ac yn croesawu adolygiad thematig Estyn o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn gwella ei ffocws a chanfod gwelliannau.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i gasglu tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad ymarferol wrth ffurfio polisiau datblygu cynaliadwy a'u cynnwys mewn partneriaethau cyflawni.
5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi adroddiad ar sut y mae polisiau yn y Rhaglen Lywodraethu yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru.
6. Yn cydnabod y cyfraniad a wnaed gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ei sylwadau ar yr adroddiad.

7. Yn cydnabod pryderon parhaus y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch elfennau o strwythur a chynnwys yr adroddiad.

8. Yn galw am Fil Cenedlaethau'r Dyfodol cadarn ac effeithiol i roi sylw priodol i'r pwyntiau a godwyd gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ac i'r Gweinidog ymgysylltu â phob plaid a'r gymdeithas ddinesig ehangach wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
44	12	0	56

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

8 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.26

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

1. Microsglodynnu

1,2,3

2. Gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw

4

3. Costau a dynnir gan drydydd part i on

9,10

4. Person penodedig ar gyfer anghydfod

6, 7

5. Canllawiau

5, 8

Cynhaliwyd y bleidlais yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Gwrthodwyd gwelliant 9

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Gan fod gwelliant 9 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 10.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
12	0	44	56

Gwrthodwyd gwelliant 6

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm

12	0	44	56
----	---	----	----

Gwrthodwyd gwelliant 7

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.

9 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.31

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.43

Daeth y cyfarfod i ben am 18:47

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2013